# RHESTR O WELLIANNAU WEDI'U DIDOLI
# MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

## Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)
## British Sign Language (Wales) Bill

Mae'r gwelliannau â * ar eu pwys yn rhai newydd neu'n rhai sydd wedi'u haddasu
Amendments marked * are new or have been altered

---

Mae gwelliannau a nodir ag 'R' yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant cofrestradwy o dan Reol Sefydlog 2 neu fuddiant perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13 neu 17 wrth gyflwyno'r gwelliant.
Amendments marked 'R' mean that the Member has declared either a registrable interest under Standing Order 2 or relevant interest under Standing Orders 13 or 17 when tabling the amendment.

---

Caiff y Bil ei ystyried yn y drefn a ganlyn—
The Bill will be considered in the following order—

| | |
|---|---|
| Sections 1– 5 | Adrannau 1 – 5 |
| Schedule 1 | Atodiad 1 |
| Sections 6 – 11 | Adrannau 6 – 11 |

---

**[R] Mark Isherwood** **1**

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Jane Hutt**

Page 1, after line 3, insert a new section—

*'Introduction*

**[ ] British Sign Language**

(1) References in this Act to "BSL" are to—

(a) the visual form of British Sign Language, and

(b) the tactile form of British Sign Language used and understood by some deafblind people.

(2) But the references to BSL in sections 2(3)(b), 3(b), 4(7), 5(2), 6(2) and 7(2)(c) are to the visual form only.'.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Tudalen 1, ar ôl llinell 3, mewnosoder adran newydd—

*'Cyflwyniad*

**[ ] Iaith Arwyddion Prydain**

(1) Mae cyfeiriadau yn y Ddeddf hon at "IAP" yn gyfeiriadau at—

(a) ffurf weledol Iaith Arwyddion Prydain, a

(b) ffurf gyffyrddol Iaith Arwyddion Prydain a ddefnyddir ac a ddeellir gan rai pobl ddallfyddar.

(2) Ond mae'r cyfeiriadau at IAP yn adrannau 2(3)(b), 3(b), 4(7), 5(2), 6(2) a 7(2)(c) yn gyfeiriadau at y ffurf weledol yn unig.'.

**[R] Mark Isherwood** **2**

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Jane Hutt**

Section 1, page 1, line 6, leave out 'British Sign Language ("BSL")' and insert 'BSL'.

Adran 1, tudalen 1, llinell 6, hepgorer 'Iaith Arwyddion Prydain ("IAP")' a mewnosoder 'IAP'.

**[R] Mark Isherwood** **3**

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Jane Hutt**

Section 2, page 1, line 10, leave out 'that describes how they intend—

(a) to promote and facilitate the use of BSL in the exercise of their functions;

(b) to encourage listed public bodies to promote and facilitate the use of BSL in the exercise of their functions (see section 3)'

and insert—

'( ) The BSL strategy must—

(a) describe how the Welsh Ministers intend to—

(i) promote and facilitate the use of BSL in the exercise of their functions;

(ii) encourage listed public bodies to promote and facilitate the use of BSL in the exercise of their functions (including by giving guidance under section 3);

(b) include targets to increase or maintain the numbers of BSL translators and interpreters available for the purpose of exercising the functions mentioned in paragraph (a)'.

Adran 2, tudalen 1, llinell 11, hepgorer 'sy'n disgrifio sut y maent yn bwriadu—

(a) hybu a hwyluso'r defnydd o IAP wrth arfer eu swyddogaethau;

(b) annog cyrff cyhoeddus rhestredig i hybu a hwyluso'r defnydd o IAP wrth arfer eu swyddogaethau (gweler adran 3)'

a mewnosoder—

'( ) Rhaid i'r strategaeth IAP—

(a) disgrifio sut y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu—

(i) hybu a hwyluso'r defnydd o IAP wrth arfer eu swyddogaethau;

(ii) annog cyrff cyhoeddus rhestredig i hybu a hwyluso'r defnydd o IAP wrth arfer eu swyddogaethau (gan gynnwys drwy roi canllawiau o dan adran 3);

(b) cynnwys targedau i gynyddu neu gynnal niferoedd y cyfieithwyr a'r dehonglwyr IAP sydd ar gael at ddiben arfer y swyddogaethau a grybwyllir ym mharagraff (a)'.

**Sioned Williams** **16**

Section 2, page 1, after line 13, insert—

'( ) The BSL strategy must include steps the Welsh Ministers intend to take to—

(a) collect information in relation to, and monitor, the use of BSL;

(b) provide opportunities for persons to learn and use BSL in the workplace.'.

Adran 2, tudalen 1, ar ôl llinell 15, mewnosoder—

'( ) Rhaid i'r strategaeth IAP gynnwys y camau y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu cymryd i—

(a) casglu gwybodaeth mewn perthynas â'r defnydd o IAP, a monitro'r defnydd ohoni;

(b) darparu cyfleoedd i bersonau ddysgu a defnyddio IAP yn y gweithle.'.

**[R]Mark Isherwood** **4**

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Jane Hutt**

Section 2, page 1, after line 25, insert—

'( ) such representatives of BSL signers as the Welsh Ministers consider appropriate, and'.

Adran 2, tudalen 1, ar ôl llinell 28, mewnosoder—

'( ) unrhyw gynrychiolwyr i arwyddwyr IAP y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol, ac'.

**Sioned Williams** **17**

Section 2, page 1, after line 25, insert—

'( ) representatives of persons who are deaf and use BSL,'.

Adran 2, tudalen 1, ar ôl llinell 28, mewnosoder—

'( ) cynrychiolwyr personau sy'n fyddar ac sy'n defnyddio IAP,'.

**[R] Mark Isherwood** **5**

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Jane Hutt**

Section 2, page 1, line 26, leave out 'they' and insert 'the Welsh Ministers'.

Adran 2, tudalen 1, llinell 29, hepgorer 'maent' a mewnosoder 'mae Gweinidogion Cymru'.

**[R] Mark Isherwood** **6**

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Jane Hutt**

Section 3, page 1, after line 30, insert—

'( ) In relation to the guidance referred to in subsection (1), the Welsh Ministers—

(a) must issue the guidance no later than the date on which the BSL strategy is published in accordance with section 2(2), and

(b) may issue revised guidance at any time.

( ) The Welsh Ministers must—

(a) publish any guidance issued in accordance with this section, and'.

Adran 3, tudalen 1, ar ôl llinell 33, mewnosoder—

'( ) Mewn perthynas â'r canllawiau y cyfeirir atynt yn is-adran (1), o ran Gweinidogion Cymru—

(a) rhaid iddynt ddyroddi'r canllawiau heb fod yn hwyrach na'r dyddiad y cyhoeddir y strategaeth IAP yn unol ag adran 2(2), a

(b) cânt ddyroddi canllawiau diwygiedig ar unrhyw adeg.

( ) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) cyhoeddi unrhyw ganllawiau a ddyroddir yn unol â'r adran hon, a'.

**[R] Mark Isherwood** **7**

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Jane Hutt**

Section 3, page 2, after line 1, insert—

'( ) Before issuing the guidance, the Welsh Ministers must consult—

(a) the BSL adviser,

(b) such representatives of BSL signers as the Welsh Ministers consider appropriate, and

(c) any other persons the Welsh Ministers consider appropriate.'.

Adran 3, tudalen 2, ar ôl llinell 1, mewnosoder—

'( ) Cyn dyroddi'r canllawiau, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol—

(a) y cynghorydd IAP,

(b) unrhyw gynrychiolwyr i arwyddwyr IAP y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol, ac

(c) unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.'.

**Sioned Williams** **19**

Section 3, page 2, after line 1, insert—

'( ) Guidance issued under this section should include advice on how listed public bodies can enable BSL signers to play a leading role in the development of BSL plans (see section 4).'.

Adran 3, tudalen 2, ar ôl llinell 1, mewnosoder—

'( ) Dylai canllawiau a ddyroddir o dan yr adran hon gynnwys cyngor ar sut y gall cyrff cyhoeddus rhestredig alluogi arwyddwyr IAP i chwarae rhan arweiniol yn natblygiad cynlluniau IAP (gweler adran 4).'.

**Sioned Williams** **18**

Page 2, after line 1, insert a new section—

**'[ ] Co-production of strategy and guidance**

(1) The Welsh Ministers must publish a statement explaining how the views of deaf BSL signers have been taken into account in the preparation of—

(a) the BSL strategy, and

(b) guidance issued under section 3.'.

Tudalen 2, ar ôl llinell 1, mewnosoder adran newydd—

**'[ ] Cydgynhyrchu strategaeth a chanllawiau**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad yn esbonio sut yr ystyriwyd safbwyntiau arwyddwyr IAP wrth lunio—

(a) y strategaeth IAP, a

(b) canllawiau a ddyroddir o dan adran 3.'.

**[R] Mark Isherwood** **8**

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Jane Hutt**

Section 4, page 2, line 20, leave out 'any' and insert—

' —

( ) such representatives of BSL signers as it considers appropriate, and

( ) any other'.

Adran 4, tudalen 2, llinell 21, hepgorer 'ag unrhyw bersonau' a mewnosoder—

'â'r canlynol—

( ) unrhyw gynrychiolwyr i arwyddwyr IAP y mae'n ystyried eu bod yn briodol, a

( ) unrhyw bersonau eraill'.

**Sioned Williams** **20**

Section 5, page 2, line 28, after 'is', insert 'a deaf person; and'.

Adran 5, tudalen 2, llinell 30, ar ôl 'benodir', mewnosoder 'yn berson byddar; ac'.

**Sioned Williams** **21**

Section 5, page 2, after line 28, insert—

'( ) Before appointing a person as the BSL adviser, the Welsh Ministers must consult representatives of persons who are deaf and use BSL.'.

Adran 5, tudalen 2, ar ôl llinell 30, mewnosoder—

'( ) Cyn penodi person yn gynghorydd IAP, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â chynrychiolwyr personau sy'n fyddar ac sy'n defnyddio IAP.'.

**Sioned Williams** **22**

Section 5, page 2, after line 28, insert—

'( ) In appointing a person as the BSL adviser, the Welsh Ministers may seek advice for any purpose from any BSL signer whom they consider appropriate.'.

Adran 5, tudalen 2, ar ôl llinell 30, mewnosoder—

'( ) Wrth benodi person yn gynghorydd IAP, caiff Gweinidogion Cymru geisio cyngor at unrhyw ddiben gan unrhyw arwyddwr IAP y maent yn ystyried ei fod yn briodol.'.

**[R] Mark Isherwood** **9**

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Jane Hutt**

Section 7, page 3, after line 31, insert—

'( ) A report published under this section must include an explanation of the consideration given by the Welsh Ministers as to whether to amend the list of public bodies referred to in section 8(1) in accordance with section 8(2).'.

Adran 7, tudalen 3, ar ôl llinell 36, mewnosoder—

'( ) Rhaid i adroddiad a gyhoeddir o dan yr adran hon gynnwys esboniad o'r ystyriaeth a roddir gan Weinidogion Cymru ynghylch a ddylid diwygio'r rhestr o gyrff cyhoeddus y cyfeirir atynt yn adran 8(1) yn unol ag adran 8(2).'.

**[R] Mark Isherwood** **10**

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Jane Hutt**

Section 7, page 3, after line 33, insert—

'( ) such representatives of BSL signers as the Welsh Ministers consider appropriate, and'.

Adran 7, tudalen 3, ar ôl llinell 39, mewnosoder—

'( ) unrhyw gynrychiolwyr i arwyddwyr IAP y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol, ac'.

**[R] Mark Isherwood** **11**

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Jane Hutt**

Section 7, page 4, line 1, leave out 'they' and insert 'the Welsh Ministers'.

Adran 7, tudalen 4, llinell 1, hepgorer 'maent' a mewnosoder 'mae Gweinidogion Cymru'.

**Sioned Williams** **23**

Page 4, after line 2, insert a new section—

**'[ ] Complaints guidance**

(1) The Welsh Ministers must—

(a) publish guidance on how persons who use BSL may complain about access to services provided by the Welsh Ministers or listed public bodies, and

(b) ensure that it is available in BSL.

(2) The Welsh Ministers may revise the guidance mentioned in subsection (1), and if they do so, they must publish the revised guidance.

(3) Before publishing guidance under this section, the Welsh Ministers must consult the Public Services Ombudsman for Wales.'.

Tudalen 4, ar ôl llinell 2, mewnosoder adran newydd—

**'[ ] Canllawiau cwyno**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) cyhoeddi canllawiau ar sut y caiff personau sy'n defnyddio IAP gwyno am fynediad at wasanaethau a ddarperir gan Weinidogion Cymru neu gyrff cyhoeddus rhestredig, a

(b) sicrhau eu bod ar gael yn IAP.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r canllawiau a grybwyllir yn is-adran (1), ac os gwnânt hynny, rhaid iddynt gyhoeddi'r canllawiau diwygiedig.

(3) Cyn cyhoeddi canllawiau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.'.

**[R] Mark Isherwood** **12**

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Jane Hutt**

Section 8, page 4, line 8, after 'Wales', insert 'NHS Trust'.

Adran 8, tudalen 4, ar ddechrau llinell 9, mewnosoder 'Ymddiriedolaeth GIG'.

**[R] Mark Isherwood** **13**

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Jane Hutt**

Section 8, page 4, line 9, after 'Velindre', insert 'University NHS Trust'.

Adran 8, tudalen 4, ar ddechrau llinell 10, mewnosoder 'Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol'.

**Sioned Williams** **24**

Section 8, page 4, after line 14, insert—

'( ) With effect from the date four years after this Act receives Royal Assent, each of the following is a "listed public body"—

(a) Citizen Voice Body for Health and Social Care (Llais);

(b) Medr (Commission for Tertiary Education and Research);

(c) Public Services Ombudsman for Wales;

(d) Transport for Wales; and

(e) Social Care Wales.'.

Adran 8, tudalen 4, ar ôl llinell 15, mewnosoder—

'( ) Gydag effaith o'r dyddiad bedair blynedd ar ôl i'r Ddeddf hon gael y Cydsyniad Brenhinol, mae pob un o'r canlynol yn "corff cyhoeddus rhestredig"—

(a) Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Llais);

(b) Medr (y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil);

(c) Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;

(d) Trafnidiaeth Cymru; ac

(e) Gofal Cymdeithasol Cymru.'.

**[R] Mark Isherwood** **14**

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Jane Hutt**

Section 8, page 4, after line 20, insert—

'( ) such representatives of BSL signers as the Welsh Ministers consider appropriate, and'.

Adran 8, tudalen 4, ar ôl llinell 22, mewnosoder—

'( ) unrhyw gynrychiolwyr i arwyddwyr IAP y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol, ac'.

**[R] Mark Isherwood** **15**

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Jane Hutt**

Section 8, page 4, line 21, leave out 'such other persons as' and insert 'any other persons'.

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Cymraeg. There is no need to amend the Welsh version.